



Arthropodau sydd wedi marw allan yw trilobitau, oedd yn byw yn y moroedd rhwng tua 520 a 250 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Fel un o'r grwpiau anifeiliaid mwyaf amrywiol, roeddent yn rhan bwysig o ecosystemau morol cynnar. Mae eu sgerbydau allanol caled i'w gweld yn aml fel ffosilau.

Ordoficaidd

Craig Ordoficaidd yw mwyafrif y Canolbarth, yn dyddio o gyfnod pan oedd y tir yn ynysoedd folcanig yng nghanol cefnfor. Mae'r rhan fwyaf yn garreg laid neu siâl wedi'i ddyddodi ar wely'r môr rhwng yr ynysoedd. Tua 445 i 485 miliwn o flynyddoedd yn ôl oedd y cyfnod Ordoficaidd, ac mae'r trilobitau sydd i'w canfod mewn creigiau Ordoficaidd yng Nghymru yn dyddio o 460-470 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Ffosilau Trilobit

Mae gan drilobit dair rhan - pen (cephalon), thoracs a chynffon (pygidium). Darnau gwahanol o'r corff yw'r rhan fwyaf o ffosilau. Mae sgerbydau allanol cyflawn fel y rhain yn eithaf prin. I dyfu'n fwy, byddai trilobitau yn bwrw eu hen sgerbwdd, a'i dorri'n ddarnau. Sgerbydau wedi'u bwrw yw'r rhan fwyaf o ffosilau trilobit.

Bariau Graddfa

5mm yw pob bar graddfa heblaw *Geragnostus* (canol dde) sy'n 1mm.

Peidiwch morthwyllo'r clogwyni, neu unrhyw ffosilau mewn carreg soled.



Cnemidopyge
(hyd at 3cm)



Degamella
(hyd at 2.5cm)




Microparia
(hyd at 1cm)



Barrandia
(hyd at 2.5cm)




Homalopteon
(hyd at 3.5cm)



Geragnostus
(hyd at 1cm)

Lliw

Mae'r ffosilau yn y rhes ganol wedi'u tywyllu'n artiffisial er mwyn rhoi llun gwel. Nid dyma'u lliw naturiol.



Ogygiocaris
(hyd at 12cm)



Oygginus
(hyd at 11cm)



Platycalymene
(hyd at 6cm)